

SchoolBeat
oolBeat.o
lBeat.org

SchoolBeat.org



Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Cylchlythyr Hydref 2017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Annwyl Gydwethiwr,

Gobeithio'ch bod chi wedi mwynhau'r gwyliau haf.

Mae'r rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth, cyngor a newyddion i helpu i'ch cefnogi chi a'ch ysgol. Nodwedd arbennig y tymor hwn yw

Plant a'r Broblem o Bornograffi Ar-lein.

Cynnwys...

NODWEDD ARBENNIG

Plant a'r broblem o bornograffi ar-lein	p 2-4
RhGCYCG – Gwersi Perthnasau Mwy Diogel	p 5
Eitem Arbennig: – E-sigarennau	p 6-7
Ymgyrch BANG	p 7
Sbolokau ar Gyffur – Cyffuriau Sy'n Gwella Delwedd a Pherfformiad (cyffuriau IPED)....	p 8
Ffonau Symudol a'r Gyfraith	p 9
Beth Sy'n Newydd?	
Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016	p 10
Gwefan Newydd 'Fearless'	p 12
Deddf Meithrin Perthynas Amhriodol	p 12

Plant a'r Broblem o Bornograffi Ar-lein

“ Mae dros 50% o blant 11-16 oed wedi gwyllo pornograffi ar-lein. ”

Cymerwyd hyn o adroddiad a gomisiynydd Plant Lloegr gyda'r NSPCC a Phrifysgol Middlesex. 'Doeddwn i ddim yn siŵr os oedd e'n normal i'w wyllo', archwiliad o Effaith Pornograffi Ar-lein a Gwerthoedd, Agweddau, Credoau ac Ymddygiadau Plant a Phobl Ifainc. (2016)

Mae plant a phobl ifainc yn medru cael mynediad at bornograffi dim ond iddynt wasgu botwm. Mae plant mor ifanc ag 8 oed yn gweld pethau ar-lein sy'n eu poeni ac yn eu dychryn. Pa un ai a ydynt yn gwyllo pornograffi drwy ddamwain neu'n fwriadol, mae angen iddynt fedru siarad am hyn gydag oedolion.



Ar ddechrau llencyndod, mae'n naturiol i bobl ifainc fod yn chwilfrydig ynghylch rhyw. Mae'n adeg pan maen nhw hefyd yn agored i'w hamgylchedd a gall eu hymenyddiau gael eu 'gwifro' o gwmpas y profiadau a'r wybodaeth maen nhw'n derbyn.

Yn 2013, darganfu ymchwil gan y Comisiynydd Plant bod gwyllo pornograffi'n arwain at bobl ifainc yn datblygu:

- agweddau afrealistig tuag at ryw a chydsyniad
- agweddau negyddol tuag at rolau a hunaniaeth mewn perthnasau
- agweddau 'ffwrdd â hi' tuag at ryw a pherthnasau rhywiol
- cynnydd o ran ymddygiad rhywiol 'peryglus'
- disgwyliadau afrealistig o ddelwedd y corff a pherfformiad.

“ Rydw i o hyd yn gwyllo pornograffi, ac mae peth ohono'n eithaf ymosodol. Doeddwn i ddim yn credu ei fod yn effeithio arnaf ar y dechrau, ond rwyf wedi dechrau edrych ar ferched ychydig yn wahanol yn ddiweddar ac mae'n fy mhoeni. Hoffwn briodi yn y dyfodol ond rwy'n ofni na fydd hynny'n digwydd os fyddaf yn parhau i feddwl am ferched fel hyn. ”

Bachgen, cymerwyd o arolwg gan yr NSPCC yn 2015

“ Gyda hanner pobl ifainc 11-16 oed yn dweud eu bod nhw wedi gweld pornograffi ar-lein, mae'n tanlinellu pwysigrwydd ymdrechion parhaus i leihau'r perygl y bydd plant yn wynebu pornograffi ar-lein a rhoi sgiliau meddwl hollbwysig iddynt a chadernid i leihau effaith negyddol unrhyw bornograffi maen nhw'n gweld. ”

Wil Gardner, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Canolfan Rhyngrwyd Diogelach y DU, 2016



Beth Mae'r Llywodraeth yn Gwneud

Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno mesurau newydd i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cynnwys pornograffig niweidiol.

Mae'r Bil Economi Digidol yn cynnwys mesurau ar gyfer cyflwyno dilysu oed ar gyfer safleoedd pornograffig a'r gallu i dynnu gwasanaethau talu yn ôl wrth safleoedd sydd ddim yn cydymffurfio. Bydd gan y Bwrdd Categoriiddio Ffilmiau Prydeinig bwerau i wneud i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd gyfyngu ar fynediad i safleoedd pornograffig sydd ddim yn rhoi mesurau ddilysu oed llym mewn grym i ddiogelu plant.

“ Mae Childline wedi gweld cynnydd o 6% mewn sesiynau cwnsela lle mae pobl ifainc yn sôn yn benodol am bryderon ynghylch pornograffi ar-lein neu wefannau sydd â chynnwys niweidiol. ”

NSPCC, 2015



Beth fedrwn ni wneud am y problem?

Un peth sy'n medru helpu yw gosod rheoliadau rhiant ar ddyfeisiau digidol plant.

Mae rheoliadau rhiant yn helpu i:

- flocio neu hidlo'r hyn y gellir ei weld wrth chwilio ar-lein
- gynllunio pa amser o'r dydd y gall eich plentyn fynd ar-lein ac am ba mor hir
- eu hatal rhag lawrlwytho apiau maen nhw'n rhy ifanc ar eu cyfer
- rheoli'r cynnwys y gall aelodau gwahanol o'r teulu weld

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifainc yn dysgu am berthnasau iach yn gyson drwy eu haddysg. Bydd dysgu am bethau cadarnhaol megis parch, cydraddoldeb, cyfeillgarwch, cariad, delwedd gadarnhaol o'r corff a datblygu hunan-hyder a chyfathrebu cadarnhaol yn helpu pobl ifainc i adnabod ymddygiad iach mewn perthnasau.

Mae pobl ifainc eisiau i bornograffi gael ei gynnwys fel pwnc yn eu gwersi ABCh. Gall rhai gael eu dylanwadu i ymddwyn yn amhriodol tuag at eraill, a allai fod yn droseddau rhyw yn ôl y gyfraith. Gall gwyllo pornograffi hefyd ddylanwadu ar y ffenomenon o anfon negeseuon testun rhywiol.

“ Dywedodd 74% o blant 11 – 18 oed y dylid trafod pornograffi mewn gwersi addysg rhyw. ”

Arolwg Addysg Rhyw yr NSPCC (2013)

Llenwi'r Bylchau!

Ffordd ymlaen yw i ysgolion archwilio eu polisi o gwmpas perthnasau iach, y cwricwlwm a gwasanaethau i bobl ifainc, er mwyn sicrhau:

- yr ymgynghorir â phobl ifainc am yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn addysg am berthnasau
- bod polisiâu'n cynnwys materion o gwmpas pornograffi
- bod diogelwch y rhyngwrwyd a pherthnasau diogelwch yn cael eu harchwilio drwy gydol bywyd ysgol person ifanc

- bod staff sy'n cyflwyno'r cwricwlwm wedi'u hyfforddi'n briodol
- bod barn rhieni'n cael ei geisio a bod ymwybyddiaeth yn cael ei godi ynghylch cynnwys amhriodol ar-lein
- bod sianeli drwy ba rai y gall pobl ifainc gael mynediad at gyngor os oes ganddynt bryderon ynghylch rhyw
- bod mewnbynnau gan arbenigwyr megis yr heddlu, nyrsys ysgol neu asiantaethau priodol ar gael i gefnogi cyflwyniadau cwricwlwm.



Holwch eich Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) am wersi a gwasanaethau sy'n cefnogi dysgu am berthnasau iach a pharchus ar gyfer disgyblion 5-16 oed.



Gwers Cyfnod Sylfaen sy'n archwilio i gam-drin domestig mewn teulu.



Gwers CA2 Is sy'n archwilio i ymddygiad iach ac afiach.



Gwers CA2 Uwch sy'n archwilio i ddiogelwch personol.



Gwers CA3 sy'n archwilio i gamfanteisio rhywiol.



Gwers CA3 sy'n archwilio i gam-drin domestig mewn perthnasau rhwng pobl ifainc yn eu harddegau.



Gwers CA4 sy'n archwilio i gydsyniad rhywiol a'r gyfraith.

“ Mae'r adnoddau a'r gweithgareddau ar schoolbeat.org yn ddefnyddiol iawn. Rwyf wedi defnyddio llawer o'r adran i athrawon er mwyn helpu'r plant yn fy nosbarth i gyfnerthu eu dysgu ar ôl gwrs y swyddog heddlu cymunedol ysgolion ” – Athro blwyddyn 6

EITEM ARBENNIG! EITEM ARBENNIG!

E-sigarennau

neu Systemau Electronig Cyflwyno Nicotin (ENDS)

Yn ôl datganiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ionawr 2017) dylid cynnwys e-sigarennau ochr yn ochr â sylweddau eraill megis Alcohol a Thybaco ym mhob addysg iechyd ar gyfer plant a phobl ifainc, a dylid eu cyflwyno fel rhywbeth sy'n niweidio iechyd.

“ Mae'r defnydd o Nicotin gan blant a phobl ifainc yn annigol. Gall achosi caethiwed a gall niweidio'r ymennydd, sydd dal yn datblygu mewn plant a phobl ifainc. Nid oes gan e-sigarennau fanteision i blant a phobl ifainc. Mae pryder bod e-sigarennau'n cael eu hystyried yn ddiogel, ond nid yw hynny'n wir. Er bod peryglon i iechyd yn is o lawer mewn e-sigarennau na sigarennau, nid ydynt heb risgiau. ”

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017



Mae hefyd pryderon:

- Y bydd defnydd eang o e-sigarennau'n ail-normaleiddio ysmegu.
- Gall defnyddio e-sigarennau leihau'r tebygolrwydd y bydd ysmygwyr yn rhoi'r gorau i ysmegu drwy ddisodli'r dulliau ar gyfer helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu sydd wedi'u profi'n wyddonol.
- Gall defnyddio e-sigarennau weithredu fel porth i ddefnyddio Thybaco – yn arbennig ymysg plant a phobl ifainc.
- Er bod e-sigarennau'n cyflwyno perygl is o lawer ar gyfer pobl sydd eisoes yn ysmegu na defnyddio Thybaco, nid ydynt yn ddiogel. Mae consensws rhyngwladol bod defnyddio e-sigarennau'n cyflwyno perygl posibl i iechyd pobl sydd ddim yn ysmegu.

Mae angen ymchwil pellach ym mhob maes, a bydd hynny'n parhau.

Mae argymhellion pellach yn cynnwys:

- Cyfyngu ar y defnydd o e-sigarennau mewn mannau a ddefnyddir gan blant e.e. mewn ysgolion ac ar dir ysgolion, ac o gwmpas mynedfeydd i ysgolion.
- Gwaharddiad ar flasau e-hylif sy'n debyg i flasau losin er mwyn lleihau apêl e-sigarennau i blant a phobl ifainc.
- Cyfyngiadau ar hysbysebu e-sigarennau yn yr holl gyfryngau a fyddai'n cael ei weld yn aml gan blant a phobl ifainc.
- Rhaglen orfodi i leihau gwerthu e-sigarennau i bobl ifainc sy'n iau na 18 oed.

Galwch heibio i'r adran ar gyfer athrawon a disgyblion am ragor o wybodaeth.



BANG!!!

Mwynhewch, byddwch yn gall a diogel, a meddyliwch am eraill!

Unwaith eto, yn ystod y cyfnod yn arwain at Nos Galan Gaeaf a Noson Guto Ffowc, mae SHCY a SCC ar gael i ysgolion er mwyn cyflwyno negeseuon pwysig mewn perthynas ag ymddygiad pobl ifainc yn y cyfnod yn arwain at y dyddiadau allweddol hyn. Gall SHCY a SCC gyflwyno 2 gwasanaeth o'r enw **Mwynhewch ac Arhoswch yn Ddiogel!** (Cynradd) a **Bihafiwch Adeg Nos Galan Gaeaf** (Uwchradd).

Mae Mwynhewch ac Arhoswch yn Ddiogel yn anelu i helpu disgyblion i feddwl am eraill a chael hwyl, tra bod **Bihafiwch Adeg Nos Galan Gaeaf (BANG)** yn anelu i helpu disgyblion i:

- ymddwyn yn gyfrifol am meddwl am eraill
- gwybod sut i beidio â chael eu hunain i helynt â'r gyfraith
- deall y peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio tân gwyllt
- gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud am dân gwyllt.

Mae disgyblion yn cael:

- eu hannog i fwynhau'r digwyddiadau hyn wrth ymddwyn yn synhwyrol
- eu hatgoffa bod gwisgo dillad tywyll pan maen nhw allan gyda'r nos yn medru bod yn beryglus oherwydd mae'n bosibl na fydd gyrwyr yn eu gweld yn hawdd
- eu hannog i ddweud wrth eu rhieni ble maen nhw'n mynd
- eu hatgoffa y gall ymddygiad anghyfrifol effeithio'n negyddol ar aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed
- gwybod sut y bydd ymddygiad annerbyniol yn cael ei drin.

Felly'r prif neges yw:

Mwynhewch, byddwch yn gall a diogel, a meddyliwch am eraill!

Sbotolau Ar Gyffuriau!

CYFFURIAU IPED

(CYFFURIAU SY'N
GWELLA DELWEDD
A PHERFFORMIAD)



Cyffuriau a ddefnyddir gan bobl i wella eu delwedd neu eu perfformiad yw cyffuriau IPED (Cyffuriau sy'n Gwella Delwedd a Pherfformiad).

Maen nhw'n cynnwys:

- Steroidau Anabolig
- Pigiadau Lliw Haul
- Botox
- Tabledi Colli Pwysau



Ym mis Ionawr 2017, siaradodd Rebecca Evans, Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus gyda Llywodraeth Cymru am y diwylliant o gamddefnyddio cyffuriau IPED sy'n bygwth niweidio iechyd cenhedlaeth.

“Nid yn y maes chwaraeon yn unig y mae'r defnydd o gyffuriau IPED yn broblem – mae'n broblem mewn cymdeithas hefyd. Mae nifer y bobl ifainc sy'n prynu ac yn cymryd sylweddau anghyfreithlon er mwyn gwella delwedd yn peri pryder.”

Hefyd, mae niwed sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau IPED, gan gynnwys clefyd y galon a niwed i'r afu, yn ogystal â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gan gynnwys ymddygiad ymosodol ac iselder dwysach. Hefyd, mae perygl o ddiodef haint drwy chwistrellu cyffuriau.

Mae defnyddio cyffuriau IPED o dan 18 oed hefyd yn aflonyddu ar y broses o dyfu ac yn ei ansefydlogi, a gall achosi difrod hirdymor.

Dywedodd Nicola Sapstead, Prif Weithredwr y sefydliad UK Anti-Doping (UKAD),

“Rydyn ni dal yn poeni am y nifer o bobl ifainc sy'n troi at steroidau er mwyn gwella delwedd a pherfformiad. Mae'n broblem difrifol ar gyfer ein cymdeithas a chenhedlaeth o bobl ifainc yn ogystal â'r maes chwaraeon.”

Nid yw Chwaraeon Cymru'n diodef camddefnyddio cyffuriau IPED o gwbl yn y maes chwaraeon. Dywedodd Brian Davies, Cyfarwyddwr Chwaraeon Elit gyda Chwaraeon Cymru,

“Rhain yw'r materion allweddol i ni, oherwydd wrth galon chwaraeon mae cystadleuaeth deg, lle mae pobl yn gwybod eu cyfrifoldebau ac yn cystadlu'n rhydd rhag cyffuriau sy'n gwella perfformiad. Defnyddiwyd addysg, profi targedig a gwaharddiadau er mwyn sicrhau cywirdeb chwaraeon.”

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal llawer o waith er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o gyffuriau IPED, gan gynnwys datblygu'r wefan www.ipedinfo.co.uk er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch lleihau niwed i'r rhai sy'n defnyddio cyffuriau IPED, neu'n ystyried eu defnyddio.

Gwers Gwedd Gwallgofrwydd CA3 RhGCHYCG



Cyffuriau IPED a'r gyfraith

Rheolir Steroidau Anabolig fel sylweddau Dosbarth C o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, ac wedi'i restrï o dan Atodlen 4, rhan 11 o Reoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001.

Mae cyfyngiadau pwysig bellach mewn grym ar gyfer pob Cyffur Gwella Delwedd a Pherfformiad o dan Ddeddf 1971.

Erbyn hyn, mae'n anghyfreithlon prynu Steroidau a chyffuriau cysylltiedig o du allan i'r DU drwy'r rhyngwrwd a thrwy archebu drwy'r post a'u cael nhw wedi'u dosbarthu i chi. Mae cosbau'n cynnwys hyd at 14 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.

Gwobrau Heddlu Dyfed-Powys 2017

Dathlwyd gwaith caled, ymrwymiad a dewrder swyddogion, staff a gwirfoddolwyr yng Ngwobrau Heddlu Dyfed-Powys 2017, a gynhaliwyd yn ystod y gwanwyn.

Cyflwynwyd gwobrau ar gyfer categorïau'n cynnwys dewrder, amrywiaeth ar waith, plismona bro, aelod staff y flwyddyn, tîm y flwyddyn, gwirfoddolwr y flwyddyn ac arwr anenwog y flwyddyn, gyda straeon ysbrydoledig i'w clywed gan enwebedigion ledled yr Heddlu.

Roedd Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion Dyfed-Powys yn llawn haeddu dod yn ail yn y categorï "Tîm y Flwyddyn", a derbyniodd y tîm ganmoliaeth uchel am eu gwaith atal gyda phlant a phobl ifainc ledled yr ardal heddlu.

Gyrru, Ffônau Symudol a'r Gyfraith



Mae defnyddio ffôn symudol yn eich llaw wrth yrru wedi bod yn anghyfreithlon ers 1af Mawrth 2017. Mae'r cosbau ar gyfer dal a defnyddio'ch ffôn wrth yrru wedi cynyddu. **Bellach, y gosb yw 6 phwynt a dirwy o £200.**

Nid yw'n anghyfreithlon defnyddio ffôn nas delir yn y llaw, ond gall unrhyw adeg nad yw sylw'r gyrrwr ar y ffordd fod yn beryglus.

Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016



Mae Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 yn darparu gwaharddiad blanced ar gynhyrchu, cyflenwi a mewnfario sylweddau seicoweithredol newydd. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud cyffuriau newydd sy'n ymddangos ar y farchnad yn anghyfreithlon yn gynt nag erioed.



Bu'n rhaid i berchnogion 'headshop' a chyflenwyr eraill addasu i'r cyfreithiau newydd a stopio masnachu'r cyffuriau hyn, sydd o bosibl yn beryglus. Mae heddluoedd hefyd wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i addysgu defnyddwyr a defnyddwyr posibl am y gyfraith newydd a pheryglon posibl cymryd sylweddau anhysbys.

Rhoddyd pwerau i swyddogion stopio a chwilio pobl, cerbydau a llongau, mynd i mewn i eiddo i'w chwilio, ac atafaelu a dinistrio sylweddau seicoweithredol.

Er nad yw'r Ddeddf newydd yn Troseddol meddu ar sylweddau seicoweithredol, bydd hi'n drosedd meddu arnynt o fewn carchardai a dalfeydd, neu unrhyw le â'r bwriad o'u gwerthu i rywun arall. Hefyd, mae'n drosedd eu mewnfario, er enghraifft, eu prynu o wefan estron.

Yn ddiweddar, mae RhGCGYCG wedi diweddarau ei wers ar effeithiau niweidiol Sylweddau Seicoweithredol Newydd.

Mae disgyblion yn dysgu:

- beth yw SSN,
- y gyfraith o gwmpas SSN
- sut i wrthod pwysau gan gyfoedion
- ble i fynd am gymorth a chyngor.



“ Mae heddluoedd wedi ymrwymo i leihau'r niwed a achosir gan bob cyffur, ond ni fedrwn wneud hyn ar ben ein hun; mae gan wasanaethau atal, addysg ac iechyd rôl hollbwysig i'w chwarae. ”

Comander Simon Bray (Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer Sylweddau Seicoweithredol Newydd)

Dileu Lluniau Anweddus

Gall deimlo fel diwedd y byd i ddisgybl pan mae delwedd anghyfreithlon, anweddus o blentyn (o dan 18 oed) wedi'i phostio ar-lein.

Mae'n wir bod person yn colli rheolaeth ar y ddelwedd ar ôl iddi gael ei phostio.

Fodd bynnag, mae modd gwneud rhywbeth i helpu.

Gellir cyflwyno adroddiad ar-lein
**Sefydliad Gwylio'r
Rhyngrwyd (IWF)**



<https://report.iwf.org.uk/en/>



Bydd IWF yn cysylltu â'r wefan er mwyn ceisio ei dileu. Dylai disgyblion wybod y gallant siarad â rhywun am gymorth, megis athro neu SHCY.

Hefyd, gallant gysylltu â

www.meiccymru.org

neu www.childline.org.uk a siarad â chwmsler a fydd yn helpu.

7 peth pwysig i'w cofio ar gyfer magu cryfder mewn plant

- 1 CYMHWYSEDD** – Grymuso plant i wneud dewisiadau cadarnhaol.
- 2 HYDER** – Canolbwyntio ar y gorau ym mhob plentyn. Cydnabod pan mae plentyn yn gwneud rhywbeth yn iawn a'i wobrwyo.
- 3 CYSYLLTU** – Helpu plant i ddatblygu perthnasau iach a chyfathrebu cadarnhaol.
- 4 CYMERIAD** – Helpu plant i ddatblygu ymddygiad a gwerthoedd cadarnhaol.
- 5 CYFRANIAD** – Rhoi cyfleoedd i blant gyfrannu a chael ymdeimlad o berthyn a phwrpas.
- 6 YMDOPI** – Helpu plant i ddysgu strategaethau i ymdopi â straen a phrofiadau negyddol eraill.
- 7 RHEOLI** – Helpu plant i ddysgu sut i gymryd cyfrifoldeb dros eu hunain a phwy all helpu mpan mae pethau'n teimlo y tu allan i'w rheolaeth.

GWEFAN FEARLESS

NEWYDD!

Yn ystod yr hydref fel lansiwyd gwefan newydd sbon ac wedi ei hailgynllunio ar gyfer Fearless, llwyfan ieuenctid Crimestoppers ble gall unigolion 11-16 ddysgu mwy am fathau o droseddau, sut i ddiogelu eu hunain ac i adrodd am droseddau 100% yn ddiennw.

Mae'r wefan newydd yn galluogi athrawon a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i gynyddu eu dealltwriaeth o droseddau a thechnegau atal ac yn darparu deunyddiau dysgu i'w lawrlwytho a chanllaw rhyngweithiol i'w ddefnyddio mewn gwersi. Mae'r safle hefyd yn cynnwys A i Y cynhwysfawr o droseddau i roi gwybodaeth a chyngror plaen i bobl ifanc.


Gallwch weld y wefan Fearless newydd ar www.fearless.org

Cyflwynwyd trosedd newydd o ran cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn ar 3 Ebrill 2017

Bellach, mae'n drosedd i unrhyw un sy'n 18 oed neu hŷn i gyfathrebu'n fwriadol â phlentyn o dan 16 pan mae'r person yn gweithredu ar gyfer diben rhywiol ac mae'r cyfathrebu'n rhywiol neu wedi'i fwriadu i ennyn ymateb rhywiol.

Mae'r drosedd yn berthnasol ar gyfer cyfathrebu ar-lein ac all-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, e-byst, negeseuon testun, llythrau ac ati.

Y gosb ar gyfer cael eich euogfarnu



ar gyfer y drosedd hon yw hyd at 2 flynedd o garchar a chael eich gosod yn awtomatig ar y Gofrestr Troseddwy'r Rhyw.